



# RHOSNEIGR

## Llythyr Newyddion Medi 2008



*Aled Morris Jones ac Evan Owen yn torri'r rhuban i agor y llwybr yn ffurfiol*

a mynyddoedd Eryri yn gefndir iddi. Yr adeg hon o'r flwyddyn gallwch weld hwyaid, ieir bach y dŵr, ac, os byddwch yn ffodus, pâr o elyrch. Gwelir gwyddau Canada yno hefyd gyda'r nos. Nid yw hi'n syndod bod y llwybr newydd, mewn byr o dro, wedi dod yn fan poblogaidd i'r gymuned leol ac i ymwelwyr fel ei gilydd.

Am y tro cyntaf erioed, fe fydd gan famau â phramiau a phobl mewn cadeiriau olwyn ffordd i fynd at ran brydferth iawn o Rosneigr drwy'r flwyddyn.

*Troedwyr ar y llwybr, gan gynnwys Derek Browne a Joyce Smith o Brosiect Rhosneigr*

## Agoriad Mawreddog Llywbr Troed Maelog

Cafwyd agoriad swyddogol y llwybr toed estyllod ar ochr orllewinol Llyn Maelog, a gwblhawyd yn ddiweddar, ym mis Gorffennaf, pan agorwyd y llwybr gan gadeirydd y Cyngor, Aled Morris Jones, arweinydd y Cyngor Cymuned, Evan Owen a chynrychiolwyr o Gomisiwn Cefn Gwlad Cymru, Cyngor Ynys Môn a Grŵp Datblygu Llwybr yr Arfordir. Roedd aelodau tîm o grŵp Prosiect Rhosneigr, tîrfeddianwyr sydd yn berchen ar dir yn ymyl y llyn ac aelodau o'r cyhoedd hefyd yn bresennol.

Roedd eich Cyngor Cymuned leol wedi cychwyn y syniad o wella llwybrau Llyn Maelog beth amser yn ôl ac roeddent yn cefnogi'r cynigion a gyflwynwyd gan Grŵp Datblygu Llwybr yr Arfordir. Roedd tîm Rhosneigr yn fodlon iawn i gydlynu cam cyntaf y gwelliant i'r llwybr. Mae'r llwybr estyllod newydd oddeutu 300 metr o hyd ac wedi ei wneud yn llwyr o bren sy'n gweddu'n dda i'r wlad o'i gwmpas. Mae gan bob estyllen bren haen o ddeunydd gwrthlithro sy'n golygu bod y llwybr yn ddiogel hyd yn oed mewn tywydd gwlyb. Ym mhen draw'r llwybr ceir man eistedd gyda golygfa hyfryd o'r llyn



*A welsoch chi ein gwefan newydd?*  
[www.Rhosneigr-on-line.co.uk](http://www.Rhosneigr-on-line.co.uk)

*Map ymwelwyr, siopau'r Pentref, y prisiau tai diweddaraf a llawer mwy.*

*Mynnwch gipolwg – bydd yr olygfa wrth eich bodd!*

# Grŵp Plant Bach Newydd

Cyhoeddwyd yn ddiweddar bod Grŵp Plant Bach newydd, a drefnwyd gan Pauline Vella, wedi ei sefydlu yn y gymuned. Gan ddechrau ym mis Hydref yn y Neuadd Bentref newydd, fe fydd y grŵp hwn yn croesawu pob rhiant/gofalwr i blant dan oed ysgol yn ogystal â darpar famau. Yr amser fydd 9.30 tan 11.30 bob bore lau. Cyhoeddir y dyddiad cychwyn ar bosteri mewn manau cyhoeddus ac mewn cyhoeddiadau yn y wasg. Bydd bydwragedd ac ymwelwyr iechyd hefyd yn cael y manylion. Chwiliwch am y poster i daliwch ati i edrych yn y fan hon.

# Hanes Rhosneigr

Sefydlwyd cynllun i gofnodi hanes Rhosneigr gan grŵp cymuned Prosiect Rhosneigr. Eu bwriad yw casglu gwybodaeth o bob math o ffynonellau a chyhoeddi Hanes Rhosneigr ar ffurf testun, lluniau a fideo ar y wefan newydd: [www.Rhosneigr-on-line.co.uk](http://www.Rhosneigr-on-line.co.uk). Gobeithiwn gynnwys lluniau a detholiadau o'r wefan mewn copïau o'r cylchlythyr newyddion yn y dyfodol. Os oes gennych wybodaeth, ffotograffau neu ffilmiau (neu fideos) o hen Rhosneigr yr hoffech eu cynnwys yn y prosiect cyffrous hwn cysylltwch ag aelod o bwyllgor Prosiect Rhosneigr neu anfonwch e-bost at [history@rhosneigr-on-line.co.uk](mailto:history@rhosneigr-on-line.co.uk). Nid y lle ei hun yn unig yw hanes ein pentref, ond y bobl hefyd, ac fe fydd eich cyfraniad yn gymorth i ddod â'r gorffennol yn ôl yn fyw. Felly, ati i'r atig, sgubo'r seler a glanhau'r garej; fe fyddwch yn siŵr o ddod ar draws rhywbeth o ddiddordeb i ni i gyd gael ei weld.



# Ysgol 100 Mlwydd Oed

Oeddech chi'n gwybod y bydd Ysgol Gynradd Rhosneigr yn dathlu ei chanmlwyddiant yn ystod y flwyddyn academaidd yma? Oni fyddai'n braf gweld rhai o'r hen luniau ysgol hynny ar y wefan newydd? Fentrwn ni ofyn a oes gan rywun luniau o'r plant yn yr ysgol a gymerwyd 100 mlynedd yn ôl? Dyw hi ddim yn amhosib. Wedi'r cyfan, cafodd y Kodak Brownie ei ddyfeisio yn 1900 a'i werthu yn America am y swm tywysogaidd o un ddoler. Byddem yn dra diolchgar am bob llun (boed yn 100 mlwydd oed neu iau). Byddwn yn sganio'r goreuon ohonynt yn ofalus a byddant i gyd yn cael eu dychwelyd i'r perchnogion gwreiddiol yn ôl y gofyn. Gweler y manylion cyswllt yn yr erthygl flaenorol.

# Busnes y Pentre'

A fydddech yn hoffi sôn am eich busnes lleol yn y fan hon? Yr ydym yn cefnogi'r masnachwyr a'r busnesau yn ein cymuned gyda hysbysebu di-dâl.

E-bostiwch eich manylion at [Project.Rhosneigr@gmail.com](mailto:Project.Rhosneigr@gmail.com). Mae croeso i luniau digidol.



*Cofia, mae Nadolig yn nesu! Archeba le i dy hysbys rŵan!*

# Prawf Diogelwch Tân

Ydych chi'n gwybod bod tua 400 o bobl yn colli eu bywydau bob blwyddyn yn sgil tanau damweiniol mewn tai yn y DU? Mae hynny dros un y dydd! Ydy eich cartref chi yn ddiogel? Mynnwch prawf diogelwch tân di-dâl yn y cartref gan y bobl broffesiynol – y Gwasanaeth Tân ac Achub. Galwch 0800 169 1234. Gwnewch hynny heddiw. Nid ydych am fod yn ystadegyn yfory.

# Gwybodaeth y Gymuned:

*Neuadd Bentref newydd Rhosneigr – Agoriad Mawreddog 13 Medi 2008.*

## **Gŵyl Wystrys a Chynnyrch Cymreig Ynys Môn**

Dyddiad: 10/10/2008 – 12.10/2008

Lleoliad: Gwesty Bae Trearddur

**I gysylltu â  
HEDDWAS CYMUNED RHOSNEIGR  
Ffoniwch: 07810814068**

*Gallwn anfon copi o'r llythyr newyddion hwn yn rhad ac am ddim i'ch cyfeiriad e-bost.*

*Anfonwch e-bost at*

*[Project.Rhosneigr@gmail.com](mailto:Project.Rhosneigr@gmail.com) gyda'r gair 'LLYTHYR NEWYDDION' ar y llinell bwnc a fe'i ceuch! Ychwanegwch 'SAESNEG' i gael y fersiwn Saesneg.*